COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymarfer Hap-samplu**

**gan y**

**Panel Craffu**

# Adolygiad o Achosion Twyll a Lladrata gan Bobl Ifainc ac Oedolion

# (Tachwedd 2018 – Ebrill 2019)

# Gwarediadau y Tu Allan I'r Llys

**Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel**

**Gorffennaf 2019**

## Cynnwys

1.0 Trosolwg ............ **Error! Bookmark not defined.**
2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg ............ **Error! Bookmark not defined.**
2.1 Data cefndir ............ **Error! Bookmark not defined.**
3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel ............ **Error! Bookmark not defined.**
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Panel ............ 5
5.0 Ystyriaeth o achosion lladrata – drwgdybiedigion ifainc ............ 5
5.2 Ystyriaeth o achos twyll – drwgdybyn ifanc ............ 8
6.0 Ystyriaeth o achosion twyll – drwgdybiedigion sy'n oedolion ............ 8
6.1 Sylwadau ............ 8
7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn ............ 11
7.1 Arfer da ............ 14
7.2 Meysydd sydd angen gwelliant ............ 14
8.0 Materion eraill sy'n codi ............ 15
9.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol ............ 16

## 1.0 Trosolwg

Mewn cyfarfod o Banel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019, adolygodd yr aelodau ddetholiad o achosion twyll a lladrata yr ymdriniwyd â hwy drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys.

Ystyriodd y Panel gyfanswm o 22 achos – deg lladrad a oedd yn ymwneud â drwgdybiedigion ifainc, un achos o dwyll a oedd yn ymwneud ag unigolyn ifanc, ac un ar ddeg achos oedolion a oedd yn ymwneud â thwyll.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Mae Aelodau'r Panel ar y cyd yn cytuno maes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Pythefnos cyn pob cyfarfod, maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol a ddewiswyd ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosib, dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb y gwarediadau. **Wrth benderfynu pa gategori mae'r achos yn perthyn iddo, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**


- Barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Sail resymegol dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- Effaith debygol ar y gymuned ;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a
- Dewisiadau eraill posibl a allai fod ar gael.


Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:


- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau'r Panel;
- Defnydd amhriodol neu ddiffyg cysondeb â'r polisi; a
- Panel yn methu â chyrraedd canlyniad.

## 2.1 Data cefndir

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y newid dros amser o ran defnydd Heddlu Dyfed-Powys o wahanol fathau o warediadau y tu allan i'r llys.






## 3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel

Gallaf i ____________________________________ (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llwyr y farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu ar 18 Gorffennaf 2019.

Llofnod: ________________________________

Dyddiad: ________________________________

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Adolygodd yr Adran Prosesau Traffig ganlyniadau'r troseddau gyrru yn achos 4 o'r cyfarfod diwethaf er mwyn gweld pa un ai a allant fod wedi effeithio ar ganlyniad y drosedd o gymryd heb ganiatâd. Canfu bod yr achos o ddiffyg yswiriant wedi mynd i'r llys, fodd bynnag, tynnwyd yr achos yn ôl gan fod y gwneuthurwyr penderfyniadau'n teimlo nad oedd parhau â'r erlyniad o fudd i'r cyhoedd.

## 5.0 Ystyriaeth o achosion lladrata – drwgdybiedigion ifainc

Ymdriniwyd â dau achos drwy Rybudd Ieuenctid, chwech drwy Warediad Adferol Ieuenctid, a dau drwy Ddatrysiad Cymunedol Ieuenctid.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 8 |
| Priodol gydag amheuon | 2 |

### 5.1 Sylwadau

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos.

**Achos 1**

Gan mai dim ond 12 oed oedd yr unigolyn, a gan fod difrifoldeb yr achos yn isel, gyda'r unigolyn yn cymryd gwerth £9.10 o losin o siop heb dalu, roedd yr Aelodau'n teimlo bod Datrysiad Cymunedol Ieuenctid yn briodol, gyda'r troseddwr yn derbyn cefnogaeth.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

Teimlai'r Aelodau Panel bod Gwarediad Adferol Ieuenctid yn ganlyniad addas. Fodd bynnag, teimlwyd y byddai'r unigolyn wedi elwa o gymorth gan y Tîm Troseddau Ieuenctid, ond ni chafodd ei gyfeirio.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

Ni fynegodd y Panel unrhyw bryderon mewn perthynas â chanlyniad yr achos hwn. Roedd yr unigolyn wedi cymryd detholiad o eitemau bwyd o siop heb dalu, fodd bynnag, cyfaddefodd yn llawn i'r drosedd, dangosodd edifeirwch, ac ysgrifennodd lythyr o ymddiheuriad i'r siop. Roedd yr unigolyn hefyd yn barod i dderbyn pob cymorth gan y Tîm Troseddau Ieuenctid.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 4**

Roedd yr Aelodau'n teimlo bod y canlyniad o Waredlad Adferol Ieuenctid yn briodol ar gyfer lefel y digwyddiad. Roedd y troseddwr wedi cymryd beic a thynnu'r goleuadau a'r breciau cyn ei ddychwelyd. Fodd bynnag, fel y nodir yn achos 2, nid yw unigolion bob amser yn cael eu cyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid. Teimlai'r Panel y byddai'r unigolyn hwn wedi elwa o gymorth gan y Tîm Troseddau Ieuenctid er mwyn helpu i adnabod y rheswm pam bod yr unigolyn wedi cyflawni'r drosedd, ac atal unrhyw ymddygiad troseddol pellach o bosibl.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

Roedd yr Aelodau'n teimlo y dylid fod wedi rhoi Rhybudd Amodol Ieuenctid i'r unigolyn hwn yn hytrach na Rhybudd, er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn cymorth a bod yn rhaid iddynt ymgysylltu â'r gwasanaeth cymorth alcohol.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 6**

Roedd y troseddwr 10 oed hwn wedi cymryd torth o fara a photel o bop ac wedi gadael y siop heb dalu. Oherwydd lefel isel y digwyddiad, teimlai'r Aelodau bod y canlyniad, sef Gwarediad Adferol Ieuenctid, yn briodol. Fodd bynnag, fel y nodwyd o fewn achosion blaenorol, ni chyfeiriwyd yr unigolyn at y Tîm Troseddau Ieuenctid. Roedd y Panel yn teimlo bod yr unigolyn hwn wedi colli'r cyfle i dderbyn y cymorth angenrheidiol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 7**

Oherwydd difrifoldeb y digwyddiad, teimlai'r Aelodau y dylai'r canlyniad, sef Datrysiad Cymunedol Ieuenctid, fod wedi'i ddwysau. Roedd y troseddwr wedi dwyn cerdyn banc a'i ddefnyddio ar bedwar achlysur gwahanol. Eto, roedd y Panel yn teimlo y dylai'r unigolyn hwn fod wedi'i gyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid er mwyn derbyn cymorth.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 8**

Teimlai'r Panel bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol drwy Rybudd Ieuenctid gan fod euogfarn flaenorol gan yr unigolyn, ac roedd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn rhoi cymorth i'r unigolyn ynglŷn â'i gamddefnydd o alcohol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 9**

Ni fynegodd y Panel unrhyw bryderon am y ffordd y gwaredwyd â'r achos hwn. Roedd yr unigolyn wedi dwyn gwerth £9 o golur o siop. Teimlai'r Panel bod Gwarediad Adferol Ieuenctid yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 10**

Cafodd y troseddwr ei ddal yn dwyn eitem gwerth 49c o siop. Oherwydd bod y digwyddiad yn un lefel isel, teimlai'r Panel bod Gwarediad Adferol Ieuenctid yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## 5.2 Ystyriaeth o achos twyll – drwgdybyn ifanc

Roedd asesiad yr Aelodau fel a ganlyn:

**Achos 11**

Teimlai'r Aelodau y dylai'r canlyniad fod wedi'i ddwysau o Rybudd Ieuenctid i Rybudd Amodol Ieuenctid, o bosibl. Roedd y troseddwr wedi dwyn cerdyn o waled a'i ddefnyddio sawl gwaith. Byddai derbyn Rhybudd Amodol wedi sicrhau bod yr unigolion a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad wedi derbyn cymorth. Teimlai'r Panel y gallai cymorth atal ymddygiad troseddol yn y dyfodol.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

## 6.0 Ystyriaeth o achosion twyll – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd yr Aelodau Panel 11 achos oedolyn. Ymdriniwyd â 5 achos drwy Rybudd, 5 drwy Ddatrysiad Cymunedol, ac 1 drwy Rybudd Amodol.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 7 |
| Priodol gydag amheuon | 2 |
| Amhriodol | 2 |

## 6.1 Sylwadau

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos:

**Achos 12**

Roedd Aelodau'r Panel yn methu penderfynu pa un ai a fyddai Rhybudd Amodol wedi bod yn fwy priodol, er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth cyffuriau. Roedd gan yr unigolyn hanes o ymddygiad twyllodrus dros gyfnod byr er mwyn cael cyffuriau ar bresgripsiwn. Nid oedd y rheswm pam yr oedd yr unigolyn wedi cyflawni'r twyll yn amlwg o'r adroddiad trosedd, ac roedd ei fwriadau ar gyfer y swm enfawr o gyffuriau wedi'u hymchwilio'n llawn.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 13**

Canfu'r Panel bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol, fodd bynnag, roeddent yn teimlo mai mater sifil ydoedd, ac nad oedd angen cysylltiad yr heddlu, o bosibl.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 14**

Roedd Aelodau'r Panel yn teimlo bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol. Nodwyd bod Datrysiad Cymunedol yn ganlyniad sydd yn groes i'r canllawiau, o ystyried difrifoldeb y digwyddiad. Roedd y troseddwr wedi cael manylion o gerdyn banc a'u defnyddio i brynu nwyddau hyd at ryw £1,200. Oherwydd y swm, roedd cyhoeddi Datrysiad Cymunedol yn groes i'r polisi. Teimlai'r Panel y dylai'r achos fod wedi'i ddwysau.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 15**

Er nad oedd gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau blaenorol, oherwydd difrifoldeb y drosedd, teimlai'r Aelodau bod Datrysiad Cymunedol yn amhriodol. Roedd y troseddwr wedi dewis eitemau mewn siop a cheisio newid y tocynnau pris er mwyn dangos pris is. Yna, ceisiodd y troseddwr ddychwelyd yr eitemau am y pris gwreiddiol. Gan fod y troseddwr wedi meddwl am ei weithredoedd ymlaen llaw, teimlai'r grŵp y dylai'r achos fod wedi'i ddwysau. Yn eu barn nhw, roedd Rhybudd yn fwy priodol.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 16**

Ni fynegodd y Panel unrhyw bryderon ynglŷn â chanlyniad yr achos hwn. Roedd y troseddwr wedi mynd mewn i siop, dewis ambell eitem, a mynd â nhw i'r til am ad-daliad. Nid oedd gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau blaenorol ac roedd y dioddefydd yn fodlon â'r canlyniad.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## Achos 17

Teimlai'r Panel bod canlyniad yr achos hwn yn briodol ac yn unol â'r polisi. Roedd gan y troseddwr euogfarnau blaenorol, felly roedd hyn yn ddefnydd da o Rybudd Amodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## Achos 18

Daeth y Panel i'r casgliad bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol drwy Rybudd. Nid oedd gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau blaenorol, talwyd y golled ariannol, ac nid oedd y dioddefydd eisiau mynd â'r mater i lys.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## Achos 19

Oherwydd difrifoldeb y digwyddiad, teimlai'r Panel y dylai'r achos hwn fod wedi'i ddwysau o Rybudd i Gyhuddiad. Fodd bynnag, gan fod yr awdurdodau mewnfudo ar fin alltudio'r troseddwr, cytunodd y Panel bod y canlyniad hwn yn briodol o dan yr amgylchiadau.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## Achos 20

Roedd y Panel yn fodlon â gwarediad yr achos hwn. Nid oedd gan y troseddwr unrhyw euogfarnau blaenorol, ac nid oedd y dioddefydd eisiau mynd â'r achos ymhellach. Gan hynny, ystyriwyd bod y canlyniad yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## Achos 21

Er mai mân drosedd a fyddai fel arfer yn arwain at warediad is oedd hwn, teimlai'r Panel bod Rhybudd yn warediad priodol o ganlyniad i droseddau cysylltiedig eraill, gan gynnwys torri amodau gorchymyn atal.

**Asesiad y Panel: Priodol**


**Achos 22**


Oherwydd bod hanes hir o euogfarnau sy'n gysylltiedig â dwyn gyda'r unigolyn hwn, teimlai'r Panel bod angen cymorth arno, ac y dylai fod yn cymryd rhan mewn cynllun dargyfeiriol. Nid oedd y Panel yn medru dod i benderfyniad ynglŷn â'r lefel y dylid fod wedi trin yr achos hwn. Teimlai rhai Aelodau y dylid fod wedi cyhuddo'r unigolyn oherwydd yr hanes o euogfarnau, a theimlai Aelodau eraill y dylid fod wedi cyflwyno Rhybudd Amodol iddo er mwyn sicrhau ei fod yn derbyn cymorth.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**


## 7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

Mae'r graff isod yn dangos asesiadau'r Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.







Ers Tachwedd 2013 mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o waredIadau, fel y gwelir yn y graff isod.





O'r 311 o achosion a adolygwyd rhwng Ebrill 2013 a Gorffennaf 2019, cafodd 57% eu hasesu'n briodol, 22% yn amhriodol, 19% yn briodol gydag amheuon a methodd y Panel â dod i ganlyniad mewn 2% o'r achosion.


Ar y cyfan, bu cynnydd yn nifer yr achosion a ystyriwyd gan y Panel yn warediadau priodol. Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad fesul math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Gorffennaf 2019.



Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer gwirioneddol o achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Gorffennaf 2019.




## 7.1 Arfer da

Nodwyd yr arfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- O'u hadolygiad o achosion lladrata gan bobl ifainc, teimlwyd bod 8 o achosion wedi'u trin yn briodol, a bod 2 yn briodol gydag amheuon. Ni ystyriwyd bod unrhyw achos wedi'i drin yn amhriodol.

## 7.2 Meysydd sydd angen gwelliant

Nodwyd dau faes penodol lle'r oedd angen gwelliant o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Gwelwyd nad oedd unigolion sy'n derbyn Gwarediad Adferol Ieuenctid bob amser yn cael eu cyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid, felly nid oeddent yn derbyn cymorth i newid eu hymddygiad bob amser. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol cyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid, ond mae'n cael ei ystyried yn arfer da. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r angen ar gyfer adolygu'r Polisi Gwarediad Adferol Ieuenctid mewn perthynas â chyfeirio unigolion i'r Tîm Troseddau Ieuenctid.

| **Cam Gweithredu 1** |
|---|
| Yr Heddlu i adolygu'r Polisi Gwarediad Adferol Ieuenctid mewn perthynas â chyfeirio unigolion i'r Tîm Troseddau Ieuenctid. |

- Nodwyd nad oedd Gwarediadau Adferol Ieuenctid blaenorol bob amser yn cael eu nodi gan yr Heddlu, ac weithiau, roedd pobl ifainc yn derbyn Gwarediad Adferol Ieuenctid arall yn amhriodol. Trafodwyd y ffaith nad oedd yr ap Gwarediadau Adferol Ieuenctid bob amser yn gywir o ganlyniad i oedi o ran cofnodi troseddau ar y system. Esboniwyd bod yr adran TG yn ymchwilio i bosibiliadau system newydd.

## 8.0 Materion eraill sy'n codi

- Rhoddwyd diweddariad mewn perthynas â'r system gwarediadau tu allan i'r llys dwy haen. O 1 Tachwedd 2019, dim ond dau ganlyniad gwaredu fydd ar gyfer oedolion, sef y Datrysiad Cymunedol a'r Rhybudd Amodol.

| **Cam Gweithredu 2** |
|---|
| Rhoi diweddariad / cyflwyniad ar yr ymagwedd dwy haen newydd tuag at warediadau tu allan i'r llys mewn cyfarfod yn y dyfodol. |

- Argymhellodd y Cadeirydd y dylid gwahodd Cadeirydd Ynadon Merthyr (sy'n ymdrin ag achosion o Bowys) er mwyn cael cynrychiolydd o Bowys.

| **Cam Gweithredu 3** |
|---|
| Estyn gwahoddiad i gyfarfodydd y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys i Mr Jeff Edwards, Cadeirydd Ynadon Merthyr, yn y dyfodol. |

- Cafwyd trafodaeth ynghylch cyflwyno'r rhaglen fraenaru ddargyfeiriol a'i heffeithiolrwydd.

| **Cam Gweithredu 4** |
|---|
| Rhoi cyflwyniad ar y rhaglen fraenaru ddargyfeiriol i aelodau'r Panel mewn cyfarfod yn y dyfodol. |

- Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid wedi creu clip fideo newydd yn esbonio rôl y tîm.

| **Cam Gweithredu 5** |
| --- |
| Y Panel i wylio clip fideo newydd y Tîm Troseddau Ieuenctid, sy'n esbonio rôl y tîm, yn y cyfarfod nesaf. |

## 9.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r hyn y gallai'r Panel ei ystyried nesaf. Penderfynwyd y byddai'r Panel yn trafod achosion trais heb anafiadau a thrais gydag anafiadau nesaf, gan ganolbwyntio ar ddigwyddiadau sy'n cynnwys arfau bygythiol.

14-10-19